

## Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

### Mae gen i hawl

#### Geirfa

chwyn(ion) hawl(iau) ymgyrch(oedd) ymwybyddiaeth	<i>complaint(s)</i> <i>right(s)</i> <i>campaign(s)</i> <i>awareness</i>	adolygiad(au) addewid(ion) anghyfiawnder(au) arfer(ion) awgrym(iadau) cyfreithiwr (cyfreithwyr) dylanwad(au) sefydliad(au) ymchwiliad(au) ymrwymiad(au)	<i>review(s)</i> <i>promise(s)</i> <i>injustice(s)</i> <i>practice(s)/habit(s)</i> <i>suggestion(s)</i> <i>solicitor(s)</i>  <i>influence(s)</i> <i>organization(s)</i> <i>inquiry (inquiries)</i> <i>commitment(s)</i>
argymell cwyno cynrychioli	<i>to recommend</i> <i>to complain</i> <i>to represent</i>	cyson difrifol rhagweithiol ymarferol	<i>consistent</i> <i>serious</i> <i>proactive</i> <i>practical</i>
hap a damwain	<i>by chance/pot luck</i>	mynd i'r afael â	<i>to tackle/get to grips with</i>

#### Cyflwyniad

Rhagfyr 7fed ydy diwrnod "Mae gen i hawl". Ar y dyddiad hwn bob blwyddyn, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg, wrth ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg ydy sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd yng Nghymru.

I ddathlu diwrnod "Mae gen i hawl", mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi ddod i wybod mwy am Gomisiynydd y Gymraeg a'i waith, am yr hawliau sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg a beth gallwch chi ei wneud os nad ydy'r hawliau hynny ar gael i chi.

Ar noson Rhagfyr 7fed, mae cyfle i chi gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg a'i holi am ei fywyd a'i waith mewn cyfarfod arbennig ar Zoom i ddysgwyr y Gymraeg sydd wedi'i drefnu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae manylion y cyfarfod a sut i gofrestru ar ddiwedd yr uned.

#### Cwis

Mae'r uned yn dechrau gyda chwis hwyliog am Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd eich tiwtor yn arwain y cwis.

## Fideos – Mae gen i hawl

Byddwch chi'n gweld darn fideo byr yn hyrwyddo ymgyrch 'Mae gen i hawl' Comisiynydd y Gymraeg.



1. Ar ôl gweld y fideo, rhestrwch gymaint ag y gallwch chi o ffyrdd gwahanol y mae gennych chi hawl i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n cael eu cynnwys yn y fideo:

<hr/>	<hr/>
<hr/>	<hr/>
<hr/>	<hr/>
<hr/>	<hr/>
<hr/>	<hr/>

2. Gwylwch y fideo eto, ac yna ceisiwch lenwi cymaint ag y gallwch chi o'r bylchau yn y sript (sydd yn Atodiad 1 ar ddiwedd yr uned hon).

Byddwch chi'n gweld darn fideo arall sy'n rhoi hanes ymweliadau Huw â'r ysbyty.

3. Ar ôl gweld y fideo, cywirwch y brawddegau isod. Weithiau, mae mwy nag un ffaith anghywir yn y frawddeg.
  - a. Mae Huw yn wyth mlwydd oed.

---

- b. Enw mam Huw ydy Sioned.

---

c. Mae salwch difrifol ar Huw ond does dim rhaid iddo fynd i'r ysbyty yn aml.

---

ch. Mae'r apwyntiadau yn yr ysbyty yn dechrau gyda meddyg yn rhoi pigiad i Huw fel arfer.

---

d. Doedd Siân ddim wedi dweud wrth yr ysbyty pa iaith roedd y teulu'n ei siarad.

---

dd. Yr un iaith sy'n cael ei defnyddio yn yr apwyntiadau bob tro.

---

e. Doedd dim ots gan Siân ddweud wrth yr ysbyty ei bod hi ddim yn hapus achos roedd y staff i gyd yn gas.

---

f. Cysylltodd Siân â'r Comisiynydd Plant i gwyno, ond wnaeth pethau ddim newid ac mae hi'n teimlo'n ddigalon iawn.

---

4. Yn y fideo, roedd Siân yn dweud mai **hap a damwain** oedd iaith yr apwyntiadau, h.y. mater o lwc. Ydych chi'n gallu meddwl am sefyllfa ble gallech chi ddefnyddio 'hap a damwain' i ddisgrifio'r hyn oedd yn digwydd?

### Siaradwch

- Oeddech chi'n gwybod am eich hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus?
- Dych chi'n defnyddio'r Gymraeg gydag unrhyw sefydliadau, neu wedi rhoi cynnig arni? Siaradwch am eich profiad.
- Dych chi wedi cael trafferth wrth geisio defnyddio'r Gymraeg gydag unrhyw sefydliad?

## Profion gyrru Cymraeg

1. Mae'r erthygl sy'n dilyn yn sôn am ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i'r trefniadau ar gyfer gwneud profion gyrru yn Gymraeg. Mae'r geiriau canlynol yn yr erthygl, ac mae'r diffiniadau ar y dde yn y drefn anghywir. Parwch y geiriau â'r diffiniadau cywir:

anghyfiawnder	proses o gasglu ac ystyried tystiolaeth
ymrwymiad	cyflwyno dewis i rywun yn lle aros iddyn nhw ofyn amdano
ymchwiliad	pan fydd rhywun yn cael cam, neu sefyllfa annheg
addewidion	effeithio ar y ffordd mae rhywbeth yn cael ei wneud
arferion	pethau dych chi wedi dweud y byddwch chi'n eu gwneud
cael dylanwad ar	rhywbeth mae rhaid i chi ei wneud
argymell	delio â sefyllfa neu broblem
cynnig yn rhagweithiol	dweud beth dych chi'n meddwl dylai rhywun ei wneud
mynd i'r afael â	pethau dych chi'n eu gwneud o ddydd i ddydd

2. **Anghyfiawnder** ydy'r gair croes i **cyfiawnder**. Mae gan lawer o eiriau eraill sy'n dechrau gydag 'c' air croes sy'n dechrau gydag 'angh-'. Dych chi'n gwybod beth ydy'r geiriau croes i'r canlynol?

cyson \_\_\_\_\_ cydraddoldeb \_\_\_\_\_  
 cyfleus \_\_\_\_\_ cytuno \_\_\_\_\_  
 cyffredin \_\_\_\_\_ credadwy \_\_\_\_\_

Dych chi'n gallu meddwl am eiriau eraill sy'n dilyn yr un patrwm?

\_\_\_\_\_  
 \_\_\_\_\_  
 \_\_\_\_\_

3. Dych chi'n gweld mai **addewidion** ac **arferion** ydy lluosog **addewid** ac **arfer**. Rhwch ffurfiau lluosog yr enwau canlynol, sydd â'r terfyniad **-ion** hefyd:

anrheg \_\_\_\_\_ planhigyn \_\_\_\_\_  
 atgof \_\_\_\_\_ angen \_\_\_\_\_  
 mab \_\_\_\_\_ mantais \_\_\_\_\_

Dych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau eraill o enwau lluosog sy'n defnyddio'r un terfyniad?

\_\_\_\_\_  
 \_\_\_\_\_

4. Edrychwch trwy'r erthygl yn gyflym iawn a rhowch gylch o amgylch y geiriau sydd wedi'u rhestru yn ymarfer 1. uchod.

## 'Anghyfiawnder' sefyll prawf gyrru yn y Gymraeg [Erthygl o wefan BBC Cymru Fyw]

**Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dweud fod siaradwyr Cymraeg yn wynebu "anghyfiawnder" os ydyn nhw am sefyll eu prawf gyrru yn yr iaith.**

Mewn adroddiad ar brofion gyrru yn y Gymraeg, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) wedi methu cadw at ei hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Yn ôl Aled Roberts, mae'r asiantaeth wedi methu ar dri mater:

- Mae profion gyrru Cymraeg deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu canslo na rhai Saesneg;
- Mae'n rhaid disgwyl pump i chwe wythnos yn hirach er mwyn sefyll prawf gyrru ymarferol yn y Gymraeg;
- Os ydych chi eisiau gwneud cais i sefyll prawf gyrru ymarferol Cymraeg, rhaid nodi ar y wefan bod gennych chi "ofynion arbennig".

### Y DVSA 'ddim yn cwrdd â'i hymrwymiad'

Mae cynllun iaith y DVSA yn dweud y bydd "yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal". Mae addewidion hefyd y bydd "profion gyrru yn y Gymraeg ar gael ym mhob canolfan profi... yng Nghymru", ac y bydd "safon ac ansawdd ein gwasanaethau yn gyson ledled Cymru".

Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg ei bod wedi dod yn amlwg yn ystod ei ymchwiliad "nad yw arferion y DVSA yn dod yn agos at gwrdd â'r ymrwymiad y mae wedi ei wneud i bobl Cymru". Ychwanegodd ei fod wedi clywed am brofiad merch o ardal Y Rhyl oedd wedi cael gwybod dau ddiwrnod cyn ei phrawf na fyddai arholwr Cymraeg ar gael. Cynnig yr asiantaeth oedd parhau gydag arholwr Saesneg neu aros dros bum wythnos am arholwr Cymraeg.



"Y neges sy'n cael ei rhoi i'n pobl ifanc yw y dylent ddefnyddio'r Saesneg os ydynt am sefyll eu prawf gyrru," meddai Mr Roberts.

Mae'r Comisiynydd yn argymhell y dylai'r DVSA gynnal adolygiad o'r ffordd y caiff profion cyfrwng Cymraeg eu cynnal a pharatoi cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod profion gyrru ymarferol Cymraeg yn cael eu cynnig yn rhagweithiol ac yn gyfartal yn y dyfodol.

"Dw i wedi gofyn iddyn nhw gynnal adolygiad iddyn nhw ddweud yn union be' ydy'r broblem, a dweud sut maen nhw'n mynd i'r afael â hyn," meddai Mr Roberts.

### 'Ystyried yr adroddiad'

Dywedodd y DVSA eu bod wedi "cynorthwyo ymchwiliad y Comisiynydd trwy ddarparu gwybodaeth yn dangos sut mae'r DVSA yn cefnogi siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Byddwn nawr yn ystyried adroddiad llawn, terfynol y Comisiynydd ac yn ymateb maes o law."

Darllenwch yr erthygl eto (yn fwy manwl y tro hwn) cyn trafod yr atebion i'r cwestiynau isod:

5. Beth mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliad iddo?

---

---

6. Beth ydy'r tair problem mae'r Comisiynydd wedi'u nodi?

a. \_\_\_\_\_

b. \_\_\_\_\_

c. \_\_\_\_\_

7. Beth ddigwyddodd i'r ferch o ardal Y Rhyl?

---

---

8. Beth fydd yn digwydd nesaf?

---

---

### **Siaradwch**

- Dych chi, neu aelod arall o'r teulu, wedi dysgu gyrru yn ddiweddar?
- Beth ydy'ch atgofion chi am eich prawf gyrru a dysgu gyrru? Gaethoch chi unrhyw droeon trwstan?

## Pwy ydy Comisiynydd y Gymraeg?

**Yn y darn isod, mae cyfle i chi ddod i nabod Comisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts yn well, a dysgu mwy am ei gefndir. Llenwch y bylchau yn y darn.**

Cafodd Aled ei eni a'i \_\_\_\_\_ yn ardal Rhosllannerchrugog ger Wrecsam, ac mae'n parhau i fyw yno. Mae nifer o bobl yn siarad Cymraeg yn Rhos, ac mae ganddyn nhw \_\_\_\_\_ unigryw. Maen nhw'n dweud 'nene' am 'hynny draw fan yna'. Nene yw enw'r papur bro lleol hefyd.

Cafodd Aled ei fagu gan deulu oedd yn siarad Cymraeg. Cafodd ei addysg uwchradd trwy \_\_\_\_\_ y Saesneg, ond derbyniodd wersi Cymraeg yn yr ysgol. Yn Saesneg roedd Aled yn siarad gyda'r rhan fwyaf o'i ffrindiau, ond \_\_\_\_\_ oedd yn ei ardegau sylwodd pa mor wych oedd bod yn ddwyieithog, a gwelodd fod y Gymraeg yn bwysig. Roedd yn mwynhau gwrandio \_\_\_\_\_ gerddoriaeth Cymraeg a mynd \_\_\_\_\_ ddigwyddiadau Cymraeg.

Swydd gyntaf Aled Roberts oedd swydd ym mhapur yr *Evening Leader* fel 'bachgen papur' pan oedd yn \_\_\_\_\_ (13) oed. Yn ei ardegau, gweithiodd fel postmon dros \_\_\_\_\_ y Nadolig. Ar ei ddiwrnod \_\_\_\_\_ fel postmon, roedd hi'n bwrw eira yn ofnadwy, ac fe gymerodd y shifft ddeg awr a hanner iddo!

Daeth Aled yn Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2019. Mae'n mwynhau bod yn rhan o'r ymdrech i gael \_\_\_\_\_ (1,000,000) o siaradwyr erbyn 2050.

Mae Aled yn awyddus bod Comisiynydd y Gymraeg yn cynrychioli Cymru gyfan, nid Cymry Cymraeg yn unig; mae swyddogion y Comisiynydd yn byw ym \_\_\_\_\_ rhan o'r wlad.

Mae'n teimlo'n gryf \_\_\_\_\_ dylai siaradwyr Cymraeg sy'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol, gan fod swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl derbyn eu haddysg. Dydy o ddim eisiau i siaradwyr Cymraeg golli hyder i siarad yr iaith.


Astudiodd y gyfraith ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Dyna pryd trodd yn ôl o ddifri at siarad Cymraeg, a chymryd diddordeb yn y diwylliant Cymreig a Chymraeg. Mae'n briod â Llinos, ac mae ganddynt \_\_\_\_\_, Osian ac Ifan. Mae'r teulu yn siarad Cymraeg \_\_\_\_\_ gilydd. Aeth y meibion i ysgolion Cymraeg lleol. Mae ei wraig, Llinos yn gyfrifol \_\_\_\_\_ y Gymraeg mewn coleg addysg bellach, sydd hefyd yn ddarparwr Cymraeg i oedolion. Mae sgwrsio \_\_\_\_\_ phobl sydd wedi dod yn rhugl fel oedolion wastad yn brofiad cyffrous ac yn rhan bwysig o'r ymdrech i greu miliwn o siaradwyr.

Bu Aled yn gweithio fel cyfreithiwr yn ardal Wrecsam, Rhuthun a'r Wyddgrug. Roedd yn arbenigo \_\_\_\_\_ achosion plant. Bu'n cynrychioli ardal Rhos a'r Ponciau ar Gyngor Wrecsam o 1991 tan 2012 a phan gafodd ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn 2005, rhoddodd y gorau \_\_\_\_\_ swydd fel cyfreithiwr. Bu'n arwain y cyngor nes \_\_\_\_\_ gael ei ethol yn Aelod Cynulliad dros ranbarth gogledd Cymru yn 2011.

Mae Aled yn weithgar iawn yn ei gymuned yn Rhos, ac yn aelod gweithgar o bwyllgor Canolfan Gymunedol Gelf y Stiwt. Mae'n \_\_\_\_\_ o Gôr John's Boys, sydd wedi ennill mewn eisteddfodau a chystadlaethau mawr eraill, ac mae'n aelod o Gôr Ger y Ffin hefyd. Mae Côr Ger y Ffin yn gyfle i ganu efo ffrindiau, a chyfarfod efo'i wraig \_\_\_\_\_ (x1) yr wythnos!

### Dewch i gwrdd â'r Comisiynydd

Mae cyfle i chi glywed mwy a holi Aled Roberts am ei fywyd a'i waith fel Comisiynydd y Gymraeg mewn cyfarfod arbennig i ddysgwyr y Gymraeg ar ddiwrnod "Mae gen i hawl":

 dysgucymraeg.cymru  
learnwelsh.cymru



# Mae Gen i Hawl

Dewch i holi Aled Roberts,  
Comisiynydd y Gymraeg ar  
ddiwrnod "Mae gen i Hawl."

Nos Fawrth, 7 Rhagfyr  
Am 7-7.45yh

Bydd y sesiwn yn cael ei chynnal ar Zoom  
a bydd yn addas i ddysgwyr ar  
lefel Canolradd +.

Archebwch eich lle nawr.



I archebu eich lle yn y cyfarfod, llenwch y ffurflen sydd ar wefan [dysgucymraeg.cymru/newyddion/mae-gen-i-hawl/](https://dysgucymraeg.cymru/newyddion/mae-gen-i-hawl/). Y dyddiad cau ydy 5 Rhagfyr.



## Atodiad 1 – Sgript fideo Mae gen i hawl

Mae sefydliadau \_\_\_\_\_ yn cynnig gwasanaethau Cymraeg mewn amryw o ffyrdd:

- Cael \_\_\_\_\_ yn Gymraeg
- Defnyddio \_\_\_\_\_ yn Gymraeg
- Mae hawl i wneud \_\_\_\_\_ yn y Gymraeg
- Gallwch \_\_\_\_\_ atom yn Gymraeg
- Yr hawl i gael \_\_\_\_\_ Cymraeg
- Mae hawl i \_\_\_\_\_ Gymraeg ar y ffôn
- Mae hawl gen i i gael negeseuon \_\_\_\_\_ yn Gymraeg
- Mae hawl i gael \_\_\_\_\_ ac ebyst yn Gymraeg
- Yr hawl i gael \_\_\_\_\_ yn Gymraeg.
- Mi wnawn ni \_\_\_\_\_ i chi os ydych chi moyn siarad yn y Gymraeg.

\_\_\_\_\_, \_\_\_\_\_, Amy o'r dderbynfa sy' 'ma.

Pa bynnag ffordd rydych chi am \_\_\_\_\_, rydym am fod yn deg gyda \_\_\_\_\_.

A phwy sydd â'r hawl?

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

Fi.

Fi.

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

Ti.

Ti.

Fo.

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

Ti.

\_\_\_\_\_.

\_\_\_\_\_.

Ni.

\_\_\_\_\_.

Mae gen i hawl.

Mae gen i hawl...[sawl gwaith]...

O'r hyn dach chi'n \_\_\_\_\_ i'r hyn dach chi'n \_\_\_\_\_, mae gan bawb hawl i gael eu trin yn \_\_\_\_\_ yn y Gymraeg gan sefydliadau cyhoeddus.